


CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU CYNEFINOEDD DŴR CROYW

Cyflwyniad

Mae'r cynllun gweithredu cynefin grŵp hwn yn cynnwys afonydd, pyllau, dyfroedd a gyflenwir gan ddyfrhaen sy'n arddangos amrywiadau naturiol yn lefel y dŵr, llynnoedd mesotroffig a llynnoedd oligotroffig a dystroffig. Mae hefyd yn cynnwys camlesi. Mae cysylltiad agos rhyngddo â'r cynllun gweithredu cynefin ar gyfer gwlyptiroedd.



Mae gan y sir rwydwaith cyfoethog a chymhleth o **afonydd** a nentydd, yn amrywio o nentydd tir uchel cul, sydd wedi torri'n ddwfn i'r tir, i rannau tir isel addfwynach, dolennog afon Tywi. Mae'r amrywiaeth hwn o gynefinoedd dŵr croyw yn cynnal planhigion ac anifeiliaid (fflora a ffawna) sy'n nodweddiadol o'r cynefinoedd hyn, ac mae'r rhwydwaith cyrsiau dŵr yn gweithredu fel coridor i fywyd gwyllt i symud ar draws y sir, gan gysylltu safleoedd gwlyptir a dod â bywyd gwyllt i ganol ein canolfannau trefol. Caiff gwerth afonydd y sir ei gydnabod ar lefel Ewropeaidd a chenedlaethol ac mae afonydd Tywi a Theifi, ynghyd ag aberoedd afonydd Taf, Gwendraeth a Llŵchwr, wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).

Gall y brithwaith (amrywiaeth) o nodweddion cynefin a geir mewn afonydd a nentydd gynnal amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid; mae crychdonnau, rhediadau a phyllau yn cynnal rhywogaethau dŵr, mae gwaddod afon wedi'i ddinoethi – er enghraifft gwelyau gro a barrau tywod – yn bwysig i amryw o infertebratau, yn arbennig chwilod daear, corynnod a phryfed teiliwr. Mae gwenoliaid y glennydd yn nythu mewn banciau moel a chwtiaid torchog bach yn nythu ar farrau gro, tra mae llystyfiant ymylol, a llystyfiant ar hyd y glannau, yn cynnal amrywiaeth o ffawna a fflora. Mae afonydd a nentydd yn aml yn gallu darparu coridor bywyd gwyllt pwysig rhwng cynefinoedd sydd wedi'u darnio mewn ardaloedd sy'n cael eu ffermio'n ddwys a chynnal amryw o rywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn cynnwys dyfrgwn, llygoden bengron y dŵr, gwangod a Misglen berlog yr afon.

Mae blaenddyfroedd hefyd yn gynefin sydd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Amgylcheddau ar raddfa fach ydyn nhw sy'n cael eu hesgeuluso'n fawr ond sy'n bwysig i lawer o blanhigion ac infertebratau. Dylid ystyried y cyfle i adfer blaenddyfroedd a gwlyptiroedd yr un pryd mewn prosiectau.

Mae nentydd dyffrynnoedd yr ucheldir yn fannau silio ac yn feithrinfeydd pwysig i eog a sewin, sy'n defnyddio'r ardaloedd crychdonnau gyda chlogfeini wedi'u gwasgaru ar eu hyd ar gyfer bwyd a lloches. Mae afon Tywi, ynghyd â'i llednant afon Cothi, ac afon Teifi, yn enwog fel afonydd eog a brithyll, a chaiff afon Tywi ei chydabod fel un o brif afonydd sewin Ynysoedd Prydain, gan ddod ag incwm masnachol hollbwysig i'r ardal leol.

Mewn cyferbyniad i nentydd chwim yr ucheldir mae'r ffosydd draenio tir isel ar wastadeddau arfordirol Sir Gaerfyrddin. Maen nhw'n bwysig i amrywiaeth o fywyd gwyllt yn cynnwys llygod pengrwn y dŵr sydd dan fygythiad cynyddol, a rhywogaethau o blanhigion, infertebratau ac adar, ac maent yn rhan annatod o dirwedd y morfa pori arfordirol.

Mae ein hafonydd a'n nentydd yn cael eu gwerthfawrogi'n eang hefyd gan y cyhoedd. Mae harddwch a gwerth bioamrywiaeth ein prif afonydd yn ased twristiaeth pwysig i'r sir.

Cynefin dŵr croyw pwysig arall yw'r unig enghraifft yn y sir o **ddyfroedd a gyflenwir gan ddyfrhaen, ac sy'n arddangos amrywiadau naturiol yn lefel y dŵr**. Llynnoedd dros dro yw'r rhain – cânt eu galw'n 'turloughs' neu'n llynnoedd diflannol, ac fe'u ceir mewn ardaloedd o galchfaen carbonifferaidd. Nid oes mewnfa nac allfa weladwy i'r llynnoedd hyn – cânt eu bwydo gan ddŵr daear. Maen nhw'n amgylcheddau unigryw o ran eu daeareg a'r bywyd gwyllt prin y maent yn ei gynnal. Gan eu bod yn cael eu bwydo gan ddŵr daear maent yn llenwi'n rheolaidd â dŵr yn y gaeaf ac yn wag yn yr haf. Yn Sir Gaerfyrddin, saif turlough Pant-y-llyn ym mhen dwyreiniol ACA Coed Carmel. Fel arfer mae'n wag erbyn mis Mehefin-Gorffennaf ac yn llenwi eto rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr.

Mae'r cynefinoedd dŵr croyw eraill yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ein **llynnoedd** – mae nifer ohonynt wedi'u dynodi'n SoDdGA. Mae Llyn Talylychau (SN631337), Llyn Pencarreg (SN537456) a Llyn Llech Owain (SN568151) i gyd yn SoDdGA, a'r ddau olaf yn enghreifftiau o ddyfroedd prin o faethynnau (oligotroffig). Ymysg yr enghreifftiau eraill o ddyfroedd mwy yn y sir mae Llyn Taliaris a Chronfa Lliedi.

Nid yw'r sir yn adnabyddus am ei **phyllau dŵr** ac mae llawer o'r enghreifftiau mwyaf wedi cael eu creu yn sgil diwydiant, e.e. crëwyd Pyllau Machynys yn Llanelli yn sgil cloddio clai i wneud brics yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae Pwll yr Esgob (SoDdGA) yn Abergwili yn un o'r enghreifftiau gorau o ddŵr agored yn y sir – ystumllun o afon Tywi sydd wedi'i wahanu oddi wrthi yw'r pwll. Mae i rai o'n pyllau dŵr werth at ddibenion hamdden ac maent yn cael eu stocio â physgod, e.e. pyllau Cwm-yr-Oernant yng Nghaerfyrddin a Phwll Twym yn Llanelli. Mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd wedi creu nifer o ddyfroedd sydd ers hynny wedi datblygu'n gynefinoedd uchel eu gwerth o ran bioamrywiaeth.

Mae'r amrywiaeth dyfroedd yn Sir Gaerfyrddin yn darparu cynefin gwerthfawr i adar dŵr ac adar eraill, infertebratau (yn enwedig os oes llystyfiant ymylol da) a fflora.

Ymdrinnir â phyllau gardd, y mae iddynt yn aml werth bioamrywiaeth, o dan Gynllun Gweithredu'r Grŵp Tir Llwyd, Gerddi a Mannau Agored Trefol.

Ni ddylid diystyru rôl y rhyngweithio rhwng cynefinoedd dŵr croyw a chynefinoedd daearol (ac i raddau llai gynefinoedd morol). Gall cynefin daearol o ansawdd wael gael effaith negyddol arwyddocaol ar afonydd.

Manteision naturiol cynefinoedd dŵr croyw

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'u gwerth i'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Darparu dŵr ffres inni.
- Diwylliannol – mae afonydd yn allweddol i hanes anheddu yn y sir.
- Storio dŵr a rheoli llif y dŵr.
- Twristiaeth – pysgota, canŵio, nofio.
- Echdynnu graean ar gyfer adeiladu.
- Gwrteithio gorlifdiroedd yn naturiol.

Pam mae cynefinoedd dŵr croyw yn newid (o adroddiad *State of Nature*: www.rspb.org.uk/stateofnature)?

- Addasiadau ffisegol a draenio.
- Llygredd dŵr.
- Diffyg rheoli gweithredol.
- Newid hinsawdd.
- Echdynnu dŵr.
- Rhywogaethau estron a chlefydau sydd wedi cael eu cyflwyno.

Datganiad o weledigaeth ac amcanion

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cynllun hwn yw cynnal, adfer a chyfoethogi'r cynefinoedd dŵr croyw hyn yn y sir a'r rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Mae gallu pob un o'n cyrsiau dŵr i weithredu fel coridor bywyd gwyllt effeithiol yn brif amcan. Mae dalgylchoedd afonydd yn systemau dynamig a lle mae hynny'n bosib ni ddylai'r prosesau geomorffolegol sy'n dylanwadu arnynt gael eu llesteirio drwy ymyrraeth ddynol a 'rheoli'.

Hoffem gynyddu'r nifer o byllau bywyd gwyllt fel cyfle i dirfeddianwyr, teuluoedd, ysgolion a chymunedau i gymryd rhan fyw mewn prosiect i gynyddu bioamrywiaeth. Mae hyn yn neilltuol o bwysig yng nghyd-destun cysylltu cynefinoedd â'i gilydd yn nhirwedd Sir Gaerfyrddin. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

- FW1** Rheoli cynefinoedd dŵr croyw yn Sir Gaerfyrddin, ansawdd y dŵr a chynefinoedd torlannol/mylloel mewn modd cadarnhaol.
- FW2** Cynyddu'r nifer o byllau dŵr yn y sir.
- FW3** Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â dŵr croyw.
- FW4** Nodi a chofnodi pyllau dŵr/dyfroedd croyw arwyddocaol a'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig â nhw yn y sir.
- FW5** Codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd dŵr croyw a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.

Rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth/Ad42 cysylltiol (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr):

Adar- Cwtiad torchog bach, Cwtiad torchog, Golfan y mynydd.

Mamaliaid - Dyfrgi, Llygoden bengron y dŵr, Rhywogaethau o ystlumod.

Planhigion/isblanhigion – Cegiden bibellddail, Mwsogl afon aml-ffrwythog, Dŵr-lyriad nofiadwy.

Pysgod- Herlyn, Gwangen, Llysywen, Llysywen bendoll yr afon, Llysywen bendoll y môr, Eog, Brithyll/sewin.

Infertebratau – Chwilen ddaear (*Bembidion quadripustulatum*), Chwilen blymio (*Bidessus minutissimus*), Chwilen blymio (*Hydroporus rufifrons*), Pryf teiliwr gïeuog (*Lipsothrix nervosa*), Misglen berlog yr afon, Gwybedyn Mai haearnlas, *Spiriverpa lunulata* (pryf), Chwilen grwydr (*Thinobius newberyi*).

Crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Gwella'r ffordd i bysgod drwy osod ysgolion pysgod mewn afonydd
– Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru FW1
- Clirio rhwystrau yn afonydd Sir Gaerfyrddin
– Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin FW1
- Afon Gwynon – sefydlogi erydu ar hyd y glannau gyda sanau compost
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru FW1
- Rheoli pyllau dŵr ym Mharc Gwledig Pen-bre – Cyngor Sir Caerfyrddin FW1
- Sefydlu grwpiau gofalu am afonydd yn y sir FW1
- Rheoli dyfroedd ym Mharc Arfordirol y Mileniwm – cyrs a physgod anffodorol –
Cyngor Sir Caerfyrddin FW1
- Prosiect coridor afon Llanybydder – gwaith adfer
– Cyngor Sir Caerfyrddin/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru FW1
- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd – amddiffyn cynefin torlannol ar 14 safle FW1
- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd – adfer 16 pwll dŵr a chreu tri yn nyffryn Tywi FW1/2
- Llynnoedd Delta – creu llystyfiant glan afon
– Cyngor Sir Caerfyrddin/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Morfa Berwig – creu pwll dŵr – Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru FW2
- Hendy-gwyn – creu 4 pwll dŵr fel rhan o amddiffynfeydd rhag llifogydd
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru FW2
- Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid – creu pwll dŵr ger Cwm Ifor – Yr
Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid FW2
- Pysgotwyr Sir Gâr – cais am anfon ceisiadau i'r Ganolfan Cofnodion Lleol
– Cyngor Sir Caerfyrddin FW4
- Digwyddiadau hyfforddi – rheoli cyrsiau dŵr – Tywi Afon yr Oesoedd FW5
- Rheoli glannau afon – Nant Crychiau – ffensio a chreu cynefin clustogi –
Cymdeithas Pysgota Amatur Sir Gaerfyrddin FW1

2013

- Pwll Witchett, Pentywyn - gwaredu cyrs - Y Weinyddiaeth Amddiffyn / Quinetic FW1
- ? o byllau wedi eu creu yn y sir drwy brosiect a gyllidwyd gan y Gronfa Ecosystemau
Gwydn – Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid FW2
- Rheoli glannau afon – Nant Crychiau – ffensio a chreu cynefin clustogi – Cymdeithas
Bysgota Amatur Sir Gaerfyrddin FW1
- Rheoli gofal afonydd gan grwpiau gwirfoddol – Gwendraeth/Aman –
Gwirfoddolwyr / Cadwch Gymru'n Daclus FW1

- Cyrsiau dŵr wedi'u ffensio fel rhan o gynllun Tirwedd a Bioamrywiaeth y Cynllun Datblygu Gwledig i ddiogelu'r glannau rhag potsio - Cyngor Sir Caerfyrddin FW1
- Pyllau a phantiau llaith wedi eu creu a 2 bwl wedi eu hadfer fel rhan o gynllun Tirwedd a Bioamrywiaeth y Cynllun Datblygu Gwledig - Cyngor Sir Caerfyrddin FW1

2014

- Cafodd cynefinoedd afonol eu gwella yn nalgylch afon Tywi er budd pysgod mudol ar eu taith silio - gwardwyd 287 o rwystrau ar afonydd gan agor 203 o gilometrau o gynefinoedd afonol ar gyfer pysgod mudol - Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin / Cronfa Pysgodfeydd Ewrop / CNC
- Cafodd cynefinoedd afonol eu gwella drwy godi 403 o gilometrau o ffensys parth gwahanu, gan ganiatáu i lystyfiant afonol dyfu - Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin / Cronfa Pysgodfeydd Ewrop / CNC
- Cafodd cynefinoedd afonol eu gwella drwy osod 650 o fetrau o fencydd cynnal meddal (h.y. gosod pyst a gwiaail helyg i gynnal glannau afonydd) - Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin / Cronfa Pysgodfeydd Ewrop / CNC
- Rhoddwyd hyfforddiant monitro i wirfoddolwyr - Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin / Cronfa Pysgodfeydd Ewrop / CNC
- Gwnaed gwaith i wella ansawdd y dŵr ym mhen uchaf dalgylch Tywi, gan fonitro'n barhaus yr ymatebion biolegol - CNC / Dŵr Cymru

2015

- Pyllau / pyllau bas wedi'u creu ym Morfa Berwig – ARC/CSC FW2
- Pyllau wedi'u creu ym Mharc Gwledig Pen-bre – ARC/CCC FW2
- Pyllau wedi'u creu drwy brosiect Cronfa Natur ARC ar ffermydd ger Llanddeusant-ARC FW2
- Plannu coed ar hyd Doethie ac isafonydd eraill afon Tywi – i sefydlogi'r glannau a chynyddu mannau cysgodi – CRT/CC FW1
- Dalgylch Tywi – tynnu rhwystr pysgod mudol - CRT FW1
- Dalgylch Tywi – gosod tywod calch i liniaru'n erbyn asideiddio – CRT FW1
- Dalgylch Tywi – monitro iechyd yr afon gyda gwirfoddolwyr – CRT FW4
- Gwelliannau afonol i ddalgylchoedd Cynin, Cywyn a Dewi Fawr – CNC/tirfeddianwyr FW1
- Ffensio ffosydd yn ardal Pen-bre i wella cynefinoedd torlannol - CNC FW1
- Gwaith i adfer 800m o ffos - WWT FW1
- Prosiect hirdymor i reoli coed a phrysg ar y gweill, i adfer gwerth ynysydd a llyn dŵr dwfn er mwyn i'r gornchwigen ac adar eraill y gwlyptir fridio – WWT FW1
- Clirio llystyfiant o ardal o gors Ffrwd er budd planhigyn prin pys y gors - WTSWW FW3
- Cors Goch –5 pwl wedi'u hagog i greu cynefin dŵr agored i odonata – WTSWW FW1

Camau arfaethedig i'r dyfodol

- Arolwg hydrolegol yn Fferm Ffrwd er mwyn deall a rheoli symudiadau dŵr yn well FW1
- Rheoli ffosydd ym Morfa Berwig – NRW FW1
- Creu pyllau – Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid
- Ffensio afon Anell i ddiogelu llecyn(nau) silio - Cymdeithas Bysgota Amatur Sir Gaerfyrddin

Dolenni defnyddiol:

<http://jncc.defra.gov.uk/page-1430>

www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/wetlands-and-rivers

[Carmarthenshire Rivers Trust](http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Freshwater)
www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Freshwater

Ble gallwch chi weld y cynefinoedd hyn yn y sir:

Afonydd a nentydd: Ar hyd a lled y sir! Fodd bynnag, edrych ar y teithiau cerdded yn Nyffryn Cothi.

Llynnoedd: SoDdGA Llynnoedd Talylychau (SN631337), SoDdGA Llyn Pencarreg (SN537456) a SoDdGA Llyn Llech Owain (SN568151).

Pyllau dŵr: Parc Dŵr y Sandy yn Llanelli, mae Pwll yr Esgob (SoDdGA) yn Abergwili yn un o'r enghreifftiau gorau o ddŵr agored yn y sir – ystumlyn o afon Tywi, Cwm-yr-Oernant, Caerfyrddin. SoDdGA Merllyn y Pwll a Phwll Lludw, Porth Tywyn.



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) yn cynnwys y sefydliadau canlynol: [Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystumlyn](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)